Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Busnes**
—
Welsh Parliament
**Business Committee**

At: Holl Gadeiryddion Pwyllgorau'r Senedd
Dros ebost

15 Mawrth 2021

Annwyl Gadeirydd,

**Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021 – effaith ar Bwyllgorau'r Senedd**

Ar ôl pasio Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021, rwyf yn ysgrifennu i dynnu eich sylw at yr effaith ar fusnes pwyllgorau cyn diddymu'r Senedd.

Mae'r Bil yn byrhau cyfnod y diddymiad fel ei fod yn dechrau wythnos cyn diwrnod yr etholiad, sydd wedi'i drefnu ar gyfer 6 Mai 2021. Bydd y diddymiad yn dechrau ar 29 Ebrill, a bydd yr Aelodau yn parhau i fod yn Aelodau o'r Senedd hyd nes y dyddiad hwnnw.

Y rhesymeg ar gyfer byrhau cyfnod y diddymiad (un wythnos yn hytrach na phedair), fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol i'r Bil, yw:

- Galluogi unrhyw bwerau newydd (y darperir ar eu cyfer yn y Bil) i ohirio'r etholiad (na ellir eu harfer yn ystod cyfnod y diddymiad) i gael eu harfer hyd at wythnos cyn yr etholiad; a
- Darparu dull o alluogi'r Senedd bresennol i ymateb, os bydd angen iddi wneud hynny, i'r materion iechyd y cyhoedd sy'n datblygu yn y cyfnod yn arwain at yr etholiad.

Mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno y dylid rhoi chwarae teg i bob ymgeisydd cyn belled ag y bo modd, yn ystod cyfnod yr etholiad, er mwyn sicrhau etholiad teg a chyfle cyfartal i bawb. Mae'r egwyddor hon wedi cael ei hadlewyrchu mewn penderfyniadau a wnaed gan Gomisiwn y Senedd wrth ystyried a fydd adnoddau'r Senedd ar gael i Aelodau a phwyllgorau'r Senedd yn ystod y cyfnod. Byddwch yn cofio y gwnaeth Fforwm y Cadeiryddion drafod a chymeradwyo'r dull hwn hefyd yn ei gyfarfod ar 11 Chwefror.

Yn unol â'r egwyddor hon, mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno ar y drefn a ganlyn:

- Bydd y Senedd ar doriad rhwng 7 Ebrill a 28 Ebrill, sef 'y cyfnod cyn y diddymiad'. Bydd y cyfnod cyn y diddymiad yn dilyn toriad y Pasg (29 Mawrth - 6 Ebrill). Mae hyn yn gyson â blynyddoedd etholiad blaenorol, pan fo toriad y Pasg wedi arwain yn uniongyrchol at y diddymiad;
- Er mwyn sicrhau 'chwarae teg' i'r holl ymgeiswyr i'r graddau mwyaf posibl yn ystod cyfnod yr etholiad, bydd busnes y Senedd yn ystod y cyfnod cyn y diddymiad yn cael ei gyfyngu i'r hyn sy'n gysylltiedig â dibenion penodol y diddymiad byrrach fel y nodir ym Memorandwm Esboniadol y Bil;

- Felly, bydd holl weithgareddau pwyllgorau’r Senedd yn dod i ben yn ystod y cyfnod cyn y diddymiad;
- Fodd bynnag, o ystyried ei rôl wrth graffu ar reoliadau brys, caiff y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad gwrdd os bydd angen iddo drafod rheoliadau brys sy'n ymwneud â’r coronafeirws, o’r math y byddai angen adalw’r Senedd ar eu cyfer, neu reoliadau sy’n ymwneud â gohirio etholiad y Senedd 2021, yn ystod y cyfnod cyn y diddymiad. Noder, ni fyddai angen i’r Pwyllgor gyflwyno adroddiad ar reoliadau gwneud cadarnhaol yn ymwneud â’r coronafeirws fel mater o drefn yn ystod y cyfnod hwn.

Er y bydd Cadeiryddion ac aelodau’r Pwyllgorau yn aros yn eu lle yn ffurfiol, disgwylir i holl weithgareddau pwyllgorau’r Senedd ddod i ben yn ystod y cyfnod cyn y diddymiad, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

- Cyhoeddi adroddiadau pwyllgorau;
- Gwneud datganiadau cyhoeddus, drwy unrhyw gyfryngau, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol;
- Cyfeirio at safle’r Aelod ar y Pwyllgor mewn unrhyw fforwm cyhoeddus.

Pe bai etholiad y Senedd yn cael ei ohirio yn unol ag adran 6 o’r Bil, byddaf yn cynnull y Pwyllgor Busnes i drafod amserlen fusnes y Senedd, gan gynnwys trefnu amserlenni busnes pwyllgorau.

Pan fydd y Bil wedi cael Cydsyniad Brenhinol, byddaf yn ysgrifennu at yr holl Aelodau ynghylch busnes y Senedd yn ystod y cyfnod cyn y diddymiad.

Yn gywir,



**Elin Jones AS**
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.